# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001

**Y cefndir**
Mae’r Rheoliadau hyn yn gymwys i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol sy’n rhoi trefniadau gweithrediaeth ar waith o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Mae’r Rheoliadau’n rhagnodi gweithdrefnau er mwyn i’r cyhoedd gael mynd i gyfarfodydd a gynhelir gan weithrediaethau awdurdodau lleol a’u pwyllgorau a gweld dogfennau cysylltiedig ac ar gyfer cofnodi penderfyniadau gweithrediaethau.

**Rheol Sefydlog 11.5**
Gan eu bod wedi cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o’r rheoliadau, mae cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor wedi llwyddo i nodi nifer o bwyntiau sydd bellach wedi’u cymryd i ystyriaeth yn y drafft terfynol. Gan hynny, nid oes dim pwyntiau’n cael eu nodi ar hyn o bryd fel materion y mae angen i’r Pwyllgor wahodd y Cynulliad Cenedlaethol i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Y teitl**
Er bod y fannod i’w gweld o flaen y teitl ar frig tudalen 1 a 4 yn y drafftiau cynnar, mae wedi’i hepgor o’r drafft terfynol. Yr arfer gyffredin yw cynnwys y fannod.

**Troednodiadau (c) ac (ch)**
Ni fydd rhifau’r OS ar gael nes bod y rheoliadau presennol wedi’u gwneud. Gan hynny, cânt eu mewnosod pan gaiff y rheoliadau eu hargraffu.

**Gwallau teipograffyddol**
Ceir ambell fân wall teipograffyddol a ddylai gael ei gywiro naill ai drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau neu wrth argraffu.

- Yn Rheoliad 4(3), mae "cynnig i" wedi'u rhedeg yn un gair.
- Yn Rheoliad 5(5)(a) dylai "Gyhoeddi" fel y mae wedi'i ysgrifennu yn y testun Saesneg ddechrau â phriflythyren.
- Yn Rheoliad 8(1)(a) dylai "datganiadau" fod yn "ddatganiadau".

Mick Bates AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

5 Mehefin 2001